

Nodiadau i'r hawlydd ar lenwi ffurflen hawlio Rhan 8

- Os gwelwch yn dda, darllenwch yr holl nodiadau arweiniol hyn cyn dechrau llenwi'r ffurflen hawlio. Mae'r nodiadau yn dilyn yr un drefn â'r cwestiynau ar y ffurflen.
- Gall staff y llys eich helpu i lenwi'r ffurflen hawlio a rhoi gwybod i chi am y drefniadaeth ar ôl codi'r hawliad. Ond ni allant roi cyngor cyfreithiol. Os oes arnoch angen cyngor cyfreithiol, er enghraifft ynghylch y tebygrwydd o lwyddo gyda'ch hawliad neu'r dystiolaeth y bydd arnoch ei hangen i'w brofi, dylech gysylltu â thwrnai neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth.
- Os ydych yn llenwi'r ffurflen hawlio mewn llawysgrifen, defnyddiwch inc du os gwelwch yn dda, ac ysgrifennwch mewn priflythrennau.
- Rhaid i chi ffeilio unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig i gefnogi eich hawliad, un ai ar eich ffurflen hawlio neu gyda'r ffurflen. Rhaid cefnogi eich tystiolaeth ysgrifenedig trwy wneud datganiad gwirionedd.
- Gwnewch gopiâu o'r ffurflen hawlio ar ôl ei llenwi, a'r nodiadau arweiniol i'r diffynnydd ac o'ch tystiolaeth ysgrifenedig, fel bod gennych un copi i chi eich hunan, un copi i'r llys ac un copi i bob diffynnydd. Anfonwch neu ewch â'r ffurflenni i swyddfa'r llys ynghyd â'r ffi briodol. Bydd y llys yn dweud wrthyfaint yw'r swm.

Nodiadau ar lenwi'r ffurflen hawlio

Pennawd

Rhaid i chi lenwi pennawd y ffurflen i ddangos a ydych am i'r hawliad gael ei godi mewn llys sirol neu yn yr Uchel Lys. (Mae'r Uchel Lys yn golygu un ai Cofrestrfa Ddosbarth (yn gysylltiedig â llys sirol) neu'r Llysoedd Barn Brenhinol yn Llundain).

Defnyddiwch pa un bynnag sydd yn briodol o'r canlynol:

'Yn Llys Sirol'
(gan roi enw'r llys)

neu

'Yn yr Uchel Lys Barn, Adran.....'
(gan roi e.e. 'Mainc y Frenhines' neu 'Siawnsri' fel sydd yn briodol)
'Cofrestrfa Ddosbarth'
(gan roi enw'r Gofrestrfa Ddosbarth)

neu

'Yn yr Uchel Lys Barn, Adran.....',
(gan roi ee 'Mainc y Frenhines' neu 'Siawnsri' fel sydd yn briodol) Y Llysoedd Barn Brenhinol'

Manylion yr hawlydd a'r diffynnydd

Fel y person sydd yn codi'r hawliad, cyfeirir atoch chi fel 'yr hawlydd'; gelwir y person yr ydych yn ei siwio 'y diffynnydd'. Rhaid i hawlwyf sydd dan 18 oed (oni chaniateir yn wahanol gan y llys), a chleifion o fewn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983, gael cyfaill cyfreitha i godi a chynnal achos llys ar eu rhan. Gall staff y llys ddweud rhagor wrthyfaint am yr hyn fydd yn rhaid i chi ei wneud, os yw hyn yn gymwys i chi.

Notes for claimant on completing a Part 8 claim form

- Please read all of these guidance notes before you begin completing the claim form. The notes follow the order in which information is required on the form.
- Court staff can help you fill in the claim form and give information about procedure once it has been issued. But they cannot give legal advice. If you need legal advice, for example, about the likely success of your claim or the evidence you need to prove it, you should contact a solicitor or a Citizens Advice Bureau.
- If you are filling in the claim form by hand, please use black ink and write in block capitals.
- You must file any written evidence to support your claim either in or with the claim form. Your written evidence must be verified by a statement of truth.
- Copy the completed claim form, the defendant's notes for guidance and your written evidence so that you have one copy for yourself, one copy for the court and one copy for each defendant. Send or take the forms and evidence to the court office with the appropriate fee. The court will tell you how much this is.

Notes on completing the claim form

Heading

You must fill in the heading of the form to indicate whether you want the claim to be issued in a county court or in the High Court (The High Court means either a District Registry (attached to a county court) or the Royal Courts of Justice in London).

Use whichever of the following is appropriate:

'In theCounty Court'
(inserting the name of the court)

or

'In the High Court of Justice.....Division'
(inserting eg. 'Queens Bench or 'Chancery' as appropriate)
'District Registry'
(inserting the name of the District Registry)

or

'In the High Court of Justice Division,
(inserting eg. 'Queen's Bench' or 'Chancery' as appropriate)
Royal Courts of Justice'

Claimant and defendant details

As the person issuing the claim, you are called the 'claimant'; the person you are suing is called the 'defendant'. Claimants who are under 18 years old (unless otherwise permitted by the court) and patients within the meaning of the Mental Health Act 1983 must have a litigation friend to issue and conduct court proceedings on their behalf. Court staff will tell you more about what you need to do if this applies to you.

Rhaid i chi roi'r wybodaeth ganlynol amdanoch eich hunan **ac** am y diffynnydd, ar sail y statws yr ydych chi yn siwio ac y mae y diffynnydd yn cael ei siwio. Wrth siwio neu gael eich siwio fel:-

unigolyn

Pob enw blaen sydd yn wybyddus a'r cyfenw, un ai Mr, Mrs, Miss, Ms neu Arall (er enghraifft Dr) a'r cyfeiriad preswyl (**gan gynnwys** y côd post a'r rhif teleffon ac unrhyw rif ffacs neu gyfeiriad e-bost) yng Nghymru a Lloegr. Pan fo'r diffynnydd yn berchennog busnes, yn bartner mewn ffyrn neu'n unigolyn yn cael ei siwio yn enw clwb neu gymdeithas anghorfforedig arall, dylid defnyddio, fel cyfeiriad cyflwyno, y breswylfan arferol neu'r olaf y gwyddys amdani **neu** brif safle busnes y cwmni, ffyrn neu glwb neu gymdeithas anghorfforedig arall.

Pan fo'r unigolyn:

dan 18 oed ysgrifennwch '(plentyn trwy Mr Huw Puw ei gyfaill cyfreitha)' ar ôl enw'r plentyn

yn glaf o fewn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983

ysgrifennwch '(trwy Mr Huw Puw ei gyfaill cyfreitha)' ar ôl enw'r claf

yn masnachu dan enw arall rhaid i chi ychwanegu'r geiriau 'yn masnachu fel' a'r enw masnachol, er enghraifft 'Mr John Jones yn masnachu fel Siop Siôn'

yn siwio neu'n cael ei siwio mewn swyddogaeth gynrychiadol rhaid i chi ddweud beth yw'r swyddogaeth honno, er enghraifft 'Mr Huw Puw fel cynrychiolydd Mrs Henrietta Puw (ymadawedig)'

yn siwio neu'n cael ei siwio yn enw clwb neu gymdeithas anghorfforedig arall ychwanegwch y geiriau 'yn siwio/yn siwio ar ran' gydag enw'r clwb neu gymdeithas anghorfforedig arall yn dilyn.

ffyrn nodwch enw'r ffyrn gyda'r gair 'ffyrn' yn dilyn, er enghraifft 'Cremnog - ffyrn' a chyfeiriad cyflwyno sydd un ai'n gyfeiriad preswyl partner, neu'r prif safle busnes, neu'r safle busnes olaf sy'n wybyddus.

corfforaeth (ac eithrio cwmnïau) rhowch enw llawn y gorfforaeth a chyfeiriad un ai ei phrif swyddfa **neu** unrhyw fan arall lle bydd y gorfforaeth yn cynnal gweithgareddau ac sydd â chysylltiad real â'r hawliad.

cwmni a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr rhowch enw'r cwmni a chyfeiriad un ai'r swyddfa gofrestredig neu unrhyw safle busnes sydd â chysylltiad real, neu'r cysylltiad mwyaf â'r hawliad, er enghraifft y siop lle y prynwyd y nwyddau.

cwmni tramor (a ddiffinnir yn Adran 744 Deddf Cwmnïau 1985) rhowch enw'r cwmni ac un ai'r cyfeiriad a gofrestrwyd yn rhinwedd adran 691 y Ddeddf **neu** gyfeiriad safle busnes sydd â chysylltiad real, neu'r cysylltiad mwyaf â'r hawliad.

You must provide the following information about yourself **and** the defendant according to the capacity in which you are suing and in which the defendant is being sued. When suing or being sued as:-

an individual

All known forenames and surname, whether Mr, Mrs, Miss, Ms or Other (e.g. Dr) and residential address (**including** postcode and telephone and any fax or e-mail number) in England and Wales. Where the defendant is a proprietor of a business, a partner in a firm or an individual sued in the name of a club or other unincorporated association, the address for service should be the usual or last known place of residence **or** principal place of business of the company, firm or club or other unincorporated association.

Where the individual is:

under 18 write '(a child by Mr Joe Bloggs his litigation friend)' after the child's name.

a patient within the meaning of the Mental Health Act 1983 write '(by Mr Joe Bloggs his litigation friend)' after the patient's name.

trading under another name you must add the words 'trading as' and the trading name e.g. 'Mr John Smith trading as Smith's Groceries'.

suing or being sued in a representative capacity you must say what that capacity is e.g. 'Mr Joe Bloggs as the representative of Mrs Sharon Bloggs (deceased)'

suing or being sued in the name of a club or other unincorporated association add the words 'suing/sued on behalf of' followed by the name of the club or other unincorporated association.

a firm enter the name of the firm followed by the words 'a firm' e.g. 'Bandbox - a firm' and an address for service which is either a partner's residential address or the principal or last known place of business.

a corporation (other than a company) enter the full name of the corporation and the address which is either its principal office **or** any other place where the corporation carries on activities and which has a real connection with the claim.

a company registered in England and Wales enter the name of the company and an address which is either the company's registered office **or** any place of business that has a real, or the most, connection with the claim e.g. the shop where the goods were bought.

an overseas company (defined by s744 of the Companies Act 1985) enter the name of the company and either the address registered under s691 of the Act **or** the address of the place of business having a real, or the most, connection with the claim.

Manylion yr hawliad

O dan y pennawd hwn rhaid cynnwys un ai:

- y cwestiwn (cwestiynau) y dymunwch i'r llys eu penderfynu; **neu**
- y feddyginiaeth a geisiwch, a sail gyfreithiol eich hawliad; **ac**
- os gwneir eich hawliad yn unol â Rhan benodol o'r Rheolau Trefn Sifil neu gyfarwyddyd ymarfer, rhaid i chi ddweud pa un.

Enw a chyfeiriad y diffynnydd

Yn y blwch hwn ysgrifennwch enw llawn a chyfeiriad y diffynnydd y cyflwynir y ffurflen hawlio iddo (hynny yw, un ffurflen hawlio i bob diffynnydd). Os bwriedir ei chyflwyno i'r diffynnydd y tu allan i Gymru a Lloegr, mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi gael caniatâd y llys.

Cyfeiriad ar gyfer dogfennau

Nodwch yn y blwch hwn y cyfeiriad lle y dymunwch dderbyn dogfennau os yw'n wahanol i'r cyfeiriad a roesoch eisoes o dan y pennawd 'Hawlydd'. Rhaid i'r cyfeiriad a roddwch fod un ai'n gyfeiriad eich twrnai neu eich cyfeiriad preswyl neu fusnes, ac mae'n rhaid iddo fod yng Nghymru neu Loegr. Os ydych yn byw neu'n cynnal busnes y tu allan i Gymru a Lloegr, gellwch roi rhyw gyfeiriad arall o fewn Cymru a Lloegr.

Datganiad gwirionedd

Rhaid i hwn gael ei lofnodi gennych chi, gan eich twrnai neu gan eich cyfaill cyfreitha, fel sydd yn briodol. Pan fo'r hawlydd yn gwmni cofrestredig neu'n gorfforaeth, rhaid i'r hawliad gael ei lofnodi un ai gan gyfarwyddwr, trysorydd, ysgrifennydd, prif weithredwr, rheolwr neu swyddog arall gyda'r cwmni, neu (yn achos corfforaeth) gan y maer, y cadeirydd, y llywydd neu glerc y dref.

Details of claim

Under this heading you must set out either:

- the question(s) you wish the court to decide; **or**
- the remedy you are seeking and the legal basis for your claim; **and**
- if your claim is being made under a specific CPR Part or practice direction, you must state which.

Defendant's name and address

Enter in this box the full name and address of the defendant to be served with the claim form (i.e. one claim form for each defendant). If the defendant is to be served outside England and Wales, you may need to obtain the court's permission.

Address for documents

Insert in this box the address at which you wish to receive documents, if different from the address you have already given under the heading 'Claimant'. The address you give must be either that of your solicitors or your residential or business address and must be in England or Wales. If you live or carry on business outside of England and Wales, you can give some other address within England and Wales.

Statement of truth

This must be signed by you, by your solicitor or your litigation friend, as appropriate.

Where the claimant is a registered company or a corporation the claim must be signed by either the director, treasurer, secretary, chief executive, manager or other officer of the company or (in the case of a corporation) the mayor, chairman, president or town clerk.